# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024/25

Partneriaeth Rheilffordd Cymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Cymru

Conwy Valley and North Wales Coast Community Rail Partnership

## PARTNERIAETH RHEILFFORDD CYMUNEDOL DYFFRYN CONWY AC ARFORDIR GOGLEDD CYMRU



# CYNNWYS

Partneriaeth Rheilffordd Cymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Cymru

Conwy Valley and North Wales Coast Community Rail Partnership


| | |
|---|---|
| Y BARTNERIAETH | 1 |
| NEGES GAN Y CADEIRYDD | 2 |
| PROSIECTAU 2024-25 | 3 - 15 |
| DIGWYDDIADAU'R DYFODOL... | 16 |




# Y BARTNERIAETH

## PWY YDYM NI A BETH YW EIN HAMCANION

**Croeso i Bartneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Cymru**

Rydym yn Bartneriaeth Rheilffordd Gymunedol wedi'i hachredu gan y Rhwydwaith Rheilffyrdd Cymunedol (Community Rail Network), Yr Adran Drafnidiaeth (DfE) a Llywodraeth Cymru. Mae Mr Philip Evans, Cadeirydd, a Haf Jones, Is-gadeirydd, yn eich croesawu i'r adroddiad blynyddol hwn sy'n tynnu sylw at ein gwaith i gysylltu cymunedau â'u rheilffyrdd.

Mae aelodau ein partneriaeth yn cynnwys Trafnidiaeth Cymru, Avanti West Coast, Network Rail, yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, cynrychiolwyr y cynllun Mabwysiadu Gorsafoedd, y Rhwydwaith Rheilffyrdd Cymunedol, a Groundwork Gogledd Cymru, ein darparwr.

Cyflawnir y cynllun gweithgareddau busnes gan yr holl aelodau, o dan arweiniad y Swyddog Rheilffordd Gymunedol. Nod ein cynllun yw:

1. Rhoi llais i'r gymuned
2. Hyrwyddo dulliau teithio iach, cynaliadwy a hygyrch
3. Dod â chymunedau at ei gilydd a chefnogi amrywiaeth a chynhwysiant
4. Cefnogi datblygiad cymdeithasol ac economaidd

Mae Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Orllewin Cymru yn cynnwys y rheilffyrdd o Flaenau Ffestiniog i Landudno, ac o Gaergybi i Shotton.

# NEGES GAN Y CADEIRYDD



MR PHILIP EVANS

Mae'n bleser cyflwyno ein hadroddiad unwaith yn rhagor am weithgareddau'r Bartneriaeth dros y 12 mis diwethaf.

Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth greu cysylltiadau newydd â phobl a mudiadau yn yr ardaloedd a ychwanegwyd at ein Bartneriaeth estynedig, ar hyd Lein Arfordir Gogledd Ddwyrain Cymru i Shotton. At hyn, rydym yn croesawu pobl newydd i ymuno â'r grŵp llywio i rannu eu harbenigedd a'u profiad ychwanegol a chynnig mwy o gydbwysedd daearyddol i'n hardal weithredu. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'n benodol y gwaith gwych sy'n cael ei wneud i annog pobl ifanc i werthfawrogi'r system rheilffyrdd ac, yn bwysig iawn, arferion diogel gerllaw'r rheilffyrdd. Trwy wneud hyn, rydym wedi creu cysylltiadau cadarn â sawl ysgol gan roi cyfle i fyfyrwyr o wahanol gefndiroedd i deithio ar y rheilffyrdd yn eu hardaloedd. Mae gwaith ymgysylltu â grwpiau penodol yn dal i fod yn flaenoriaeth allweddol wrth i ni symud ymlaen.

Rydym yn dathlu 200 mlynedd o reilffyrdd cyhoeddus eleni, ac roeddem wrth ein bodd i dderbyn gwahoddiad i lansiad Rheilffordd 200 Cymru a'r Gororau yn Aberystwyth. Rydym wedi cefnogi ymrwymiad Trafnidiaeth Cymru i'r gyfres hon o ddigwyddiadau ac wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o drefnu'r arddangosfa hanesyddol yn Amgueddfa Llandudno. Mae'r arddangosfa hon yn cofnodi rhai agweddau ar y gwaith o redeg y system dros y blynyddoedd ac yn tynnu sylw at effaith gymdeithasol dyfodiad y rheilffyrdd.

Diolch i'r Is-gadeirydd, Haf Jones, a Karen Williams, ein Swyddog Rheilffyrdd Cymunedol, am eu cefnogaeth diflino a brwdfrydedd dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn gwerthfawrogi gwaith Groundwork Gogledd Cymru, a'n partneriaid yn y diwydiant, Trafnidiaeth Cymru ac Avanti West Coast. Mae'r ddau gwmni gweithredu yn gefnogwyr pwysig o Reilffyrdd Cymunedol ac maent bob amser yn barod i gynnig cymorth neu gyngor arbenigol, yn ogystal â chynnal digwyddiadau penodol lle gall partneriaethau feithrin syniadau newydd a chydweithio.

Gobeithio y byddwch yn cael blas ar yr adroddiad ac yn mwynhau darllen am y gweithgareddau.

**Philip C Evans YH FIoL**
**Cadeirydd, Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Cymru**

# PROSIECTAU 2024-25

WINDOW SEATER

## WINDOW SEATER




Canllaw sain sy'n canfod lleoliad yw Window Seater ac mae'n cysylltu teithwyr â'r straeon anhygoel y tu hwnt i ffenestr y trên. Mae Lein Dyffryn Conwy newydd gael ei chynnwys yn ap straeon Window Seater, ac fe lansiwyd y cynllun fis Medi diwethaf yng Ngorsaf Llandudno. Roedd cynrychiolwyr Trafnidiaeth Cymru yn bresennol, yn ogystal ag 20 o wirfoddolwyr gorsafoedd sydd wedi'u mabwysiadu a 9 aelod o'r sector twristiaeth, a Marcus Allender o Window Seater. Cafodd pawb gyfle i fwynhau taith ar hyd Lein Dyffryn Conwy a mwynhau'r naratifau hanesyddol a straeon am y trefi a'r pentrefi ar hyd y daith. Ariannwyd y fenter hon gan Trafnidiaeth Cymru a Phartneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Cymru. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Window Seater yng Ngorsaf Llandudno drwy sganio'r cod QR yn y neuadd archebu tocynnau.

# PROSIECTAU 2024-25

## GWAITH CELF AR GYFER GORSAF Y FFLINT GYDA CHANOLFAN DDYDD CROES ATTI, Y FFLINT




Ym mis Rhagfyr, gwnaethom lansio ‘Atgofion y Fflint’, menter gelfyddydol wedi’i hariannu gan Trafnidiaeth Cymru ac mewn partneriaeth â Chanolfan Ddydd Croes Atti Cyngor Sir y Fflint. Mae’r ganolfan yn darparu cymorth hanfodol i bobl sy’n byw gyda Dementia, gan gynnig sesiynau sy’n annog trefn a gwella sgiliau gwybyddol.

Dros gyfnod o 12 wythnos, bu’r artist lleol Sharon Wagstaff yn arwain 12 o bobl i greu paentiadau a darluniau o adeiladau hanesyddol a lleoliadau nodedig yn yr ardal mewn sesiynau 2 awr o hyd yng Nghroes Atti. Yna cafodd y gweithiau celf eu gosod ar fyrddau feinyl mawr sydd bellach i’w gweld yn ardal aros gorsaf y Fflint. Roedd y cyfranogwyr, eu teuluoedd a'u ffrindiau, a Maer y Fflint, y Cynghorydd Mel Buckley, yn bresennol yn y lansiad swyddogol.

# PROSIECTAU 2024-25

## GWAITH CELF AR GYFER GORSAF Y FFLINT GYDA CHANOLFAN DDYDD CROES ATTI, Y FFLINT

## ADBORTH

**Dywedodd Maer y Fflint, y Cynghorydd Mel Buckley:** *“Roedd yn fraint ac yn bleser derbyn gwahoddiad i ddadorchuddio’r prosiect celf yng ngorsaf y Fflint, mewn cydweithrediad â Trafnidiaeth Cymru a chanolfan ddydd Croes Atti. Mae’r gweithiau celf bellach i’w gweld ar wal yr ystafell aros lle gall pawb eu mwynhau. Maent yn gofnod o brosiect pwysig ac ymdrech y defnyddwyr gwasanaeth, sydd wedi esgor ar ganlyniadau anhygoel.*

*“Mae digwyddiadau o’r fath sy’n hybu cydlyniant cymunedol yn bwysig iawn ac i’w croesawu yn nhref y Fflint. Diolch i bawb sydd wedi bod yn gysylltiedig â’r prosiect, rwy’n gobeithio y bydd yn rhoi gwên ar wynebau llawer o deithwyr am flynyddoedd i ddod.”*

**Dywedodd Melanie Lawton, Pennaeth Strategol Rheilffyrdd Cymunedol Trafnidiaeth Cymru:** *“Mae gorsaf y Fflint wrth galon y gymuned ac mae’n cael ei thrawsnewid ar hyn o bryd gydag Access for All, adnodd cymunedol newydd, gardd gymunedol a’r gwaith celf yn yr ystafell aros sy’n cysylltu’r rheilffordd â’r gymuned.*

*“Mae’n wych gweld y dathliad hwn o’n hanes, treftadaeth a diwylliant bywiog. Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi cymryd rhan am ddod â’r orsaf yn fyw gyda’u gwaith celf ".*

Ysgrifennir y dyfyniadau air am air.

# PROSIECTAU 2024-25

## YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i ymgysylltu â'r gymuned, mae ein partneriaethau â sefydliadau allanol yn dal i greu profiadau gwerthfawr i bobl ifanc. Eleni, rydym wedi cefnogi 137 o bobl ifanc ar draws sawl prosiect.

- **TAITH HAF GLAN-MÔR GOFALWYR IFANC**



- **CANOLFAN SGILIAU BYWYD PENTRE PERYGLON**




- **GWEITHGAREDD GWYLIAU'R PASG – TAITH GOFALWYR IFANC I BORTHMADOG**



# PROSIECTAU 2024-25

## TAITH HAF GLAN-MÔR GOFALWYR IFANC








Yn ystod yr haf, gwnaethom drefnu diwrnod allan i ofalwyr ifanc, gan roi cyfle iddynt fwynhau seibiant haeddiannol. Teithiodd y grŵp ar y trên ar hyd Lein Dyffryn Conwy o Lanrwst i Landudno, gan dreulio'r diwrnod ar lan y môr. Roedd yr Heddlu Trafnidiaeth Brydeinig wedi cytuno i gyflwyno briffiad ar ddiogelwch y rheilffyrdd a sesiwn holi ac ateb. Ar ôl cyrraedd Llandudno, fe wnaeth y gofalwyr ifanc fwynhau pysgod a sglodion i ginio, ac yna prynhawn o weithgareddau ar y traeth, gan gynnwys paentio cerrig, adeiladu creigiau a gemau. Roedd yn gyfle gwerthfawr i ymlacio, cael hwyl a seibiant o'u cyfrifoldebau gofalu.

# PROSIECTAU 2024-25

## CANOLFAN SGILIAU BYWYD PENTRE PERYGLON









Yn gynharach eleni, gwnaethom gydweithio â Chanolfan Sgiliau Bywyd Pentre Peryglon yn Nhalacre i gynnig diwrnod allan hwyliog ac addysgol i ofalwyr ifanc.

Teithiodd y bobl ifanc ar hyd yr arfordir o Lanrwst a Bae Colwyn i ddod i'r sesiwn hwn. Yn ystod y prynhawn roedd cyfle iddynt wella eu hyder a dysgu sgiliau hanfodol yn y meysydd canlynol:

- Ymateb i argyfwng yn y cartref
- Ffonio'r gwasanaethau brys
- Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn ddiogel
- Deall cydraddoldeb ac amrywiaeth

# PROSIECTAU 2024-25

## CANOLFAN SGILIAU BYWYD PENTRE PERYGLON

## ADBORTH

**Roedd yr adborth a gawsom yn brawf o lwyddiant ac effaith y digwyddiad:**

*“Diolch am heddiw, cafodd L ac E amser gwych; maen nhw wedi bod yn sôn wrth bawb am ddiogelwch tân a nwy ers iddyn nhw ddod adref”*

*“Fe wnaeth S fwynhau heddiw; diolch”*

“Fe wnaeth T fwynhau’r daith, diolch Rheilffordd Dyffryn Conwy am eich cefnogaeth”

Ysgrifennir y dyfyniadau air am air.

# PROSIECTAU 2024-25

## GWEITHGAREDD GWYLIAU'R PASG – TAITH GOFALWYR IFANC I BORTHMADOG





Fel rhan o'i chefnogaeth barhaus i ofalwyr ifanc, trefnodd Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Cymru, mewn partneriaeth â Rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru (FfWHR), daith arbennig yn ystod y gwyliau Pasg. Y nod oedd cynnig profiad cofiadwy a gwerthfawr i'r gofalwyr ifanc, i gydnabod eu cyfrifoldebau sylweddol yn y cartref. Teithiodd y criw ar hyd Lein Dyffryn Conwy o Gyffordd Llandudno a Llanrwst i Flaenau Ffestiniog, lle gwnaethant fynd ar y trên stêm FfWRH Quarryman i Borthmadog. Roedd y daith hyfryd mewn hen gerbyd traddodiadol gyda golygfeydd godidog yn brofiad unigryw – ac roedd y gofalwyr ifanc hynny sy'n ymddiddori mewn rheilffyrdd stêm wrth eu boddau.

Ar ôl cyrraedd Porthmadog, roedd cinio bwffe wedi'i ddarparu ym Mwyty Spooners, diolch i haeloni'r tîm. Yna cafodd y plant gyfle i fwynhau eu hunain yn y parc cyfagos cyn dychwelyd adref ar drenau FfWHR a Trafnidiaeth Cymru.

Roedd y digwyddiad hwn nid yn unig yn gyfle i ymlacio a chael hwyl, roedd hefyd yn cydnabod rôl bwysig gofalwyr ifanc yn eu teuluoedd a'u cymunedau.

# PROSIECTAU 2024-25

## RHAGLEN GERDDED GYMUNEDOL MEWN PARTNERIAETH Â MIND CONWY





Diolch i nawdd gan Avanti West Coast, sefydlodd Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Cymru brosiect ar y cyd â Mind Conwy. Defnyddiwyd yr arian i lansio rhaglen gerdded sy'n ceisio gwella iechyd meddwl a llesiant defnyddwyr gwasanaethau Mind Conwy. Mae'r fenter yn defnyddio gweithgareddau cerdded i roi sylw i faterion fel gorbryder cymdeithasol, iselder, unigedd, unigrwydd, diffyg hyder, hwyliau gwael, ac yn annog pobl i ymwneud â'r gymuned. Cafodd pob taith ei harwain gan Ymarferydd Iechyd Meddwl/Arweinydd Taith.

# PROSIECTAU 2024-25

## RHAGLEN GERDDED GYMUNEDOL MEWN PARTNERIAETH Â MIND CONWY

Trefnwyd teithiau cerdded arbennig ar gyfer grwpiau penodol: dynion, menywod sy'n ymdopi ag effeithiau'r menopos, a phobl ifanc, ac roedd rhai o'r teithiau yn cynnwys hyfforddiant darllen mapiau i wella sgiliau ymarferol a hyder. Defnyddiodd pawb drafnidiaeth gyhoeddus i fynychu'r sesiynau a chawsant eu gwobrwyo â golygfeydd godidog ar hyd y daith.







Bu'r menywod ar y teithiau menopos yn crwydro ardaloedd fel Mynydd y Dref, Conwy, ac yn cerdded ar y traeth ym Mhen Morfa, Llandudno, gan orffen eu taith gyda lluniaeth yng Nhaffi Dewi, Hosbis Dewi Sant.






Fe wnaeth cyfanswm o 107 o bobl gymryd rhan yn y fenter 'O'r Cledrau i'r Llwybrau' a mwynhau 21 o deithiau cerdded tywysedig, mewn lleoliadau fel Mynydd y Dref, Conwy, Coedwig Gwydir, Llanrwst ac arfordir Llandudno. Roedd y rhaglen yn annog pawb i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, gan olygu bod y cyfranogwyr yn dod i gysylltiad â phobl eraill ac yn gwneud ffrindiau. Mae rhai o'r menywod fu'n cymryd rhan yn y teithiau menopos wedi trefnu taith i Gaer, ar ôl cael eu hysbrydoli gan eu profiad cadarnhaol o deithio ar y rheilffordd.

# PROSIECTAU 2024-25

## PARTNERIAETH AG YSGOL Y GOGARTH

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein partneriaeth werthfawr ag Ysgol y Gogarth wedi parhau, ac rydym wedi cefnogi pob math o fentrau cynhwysol a chreadigol i wella ymgysylltiad addysgol a chymunedol.

- **PROSIECT COEDEN NADOLIG – GORSAF LLANDUDNO**



- **DATHLU DYDD GŴYL DEWI**



- **TAITH ADDYSGOL AR Y RHEILFFORDD**



- **PROSIECTAU CELF PARHAUS – RHEILFFORDD 200**



# PROSIECTAU 2024-25



Bu disgyblion Ysgol y Gogarth yn addurno'r goeden Nadolig yng ngorsaf Llandudno. Gan ddefnyddio addurniadau a ddarparwyd gan Bartneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Cymru a'u haddurniadau lliwgar eu hunain, bu'r disgyblion yn addurno'r goeden, gan gyfrannu at naws yr ŵyl a chymryd rhan yng ngorymdaith Nadolig y dref.

## PROSIECT COEDEN NADOLIG – GORSAF LLANDUDNO




Ym mis Mawrth, bu myfyrwyr Ysgol y Gogarth yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi ac yn canu caneuon traddodiadol Cymraeg i deithwyr ar wasanaethau Dyffryn Conwy a Manceinion. Roedd eu brwdfrydedd wedi gwneud cryn argraff ar bawb, yn enwedig dilynwyr y trenau. Aeth ein Swyddog Rheilffyrdd i ymweld â dosbarthiadau Dyniaethau'r ysgol hefyd gan helpu i drefnu taith addysgol ar y trên.

## DATHLU DYDD GŴYL DEWI

# PROSIECTAU 2024-25



Fel rhan o'u profiad dysgu, teithiodd pedwar dosbarth o Ysgol y Gogarth ar y trên o Landudno i Fetws y Coed. Roedd y daith yn gyfle dysgu ymarferol a chafwyd cefnogaeth gan Trafnidiaeth Cymru, a gyfrannodd eitemau hygyrchedd defnyddiol fel laniardau blodau haul a dalwyr Waledi Oren. Mae'r adnoddau hyn yn helpu pobl sydd ag anableddau cudd neu anawsterau cyfathrebu i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig unigolion ar y sbectrwm awtistig.

## TAITH ADDYSGOL AR Y RHEILFFORDD



Rydym wedi parhau i gydweithio ag Ysgol y Gogarth drwy brosiectau celf creadigol sy'n gysylltiedig â Rheilffordd 200. Bydd y prosiectau hyn yn harddu platfformau Gorsaf Llandudno, gan helpu i greu amgylchedd teithio mwy croesawgar a lliwgar i bawb.

## PROSIECTAU CELF PARHAUS – RHEILFFORDD 200

# DIGWYDDIADAU'R DYFODOL...

## PROSIECT CELF CYMUNEDOL – RHEILFFORDD 200

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i ymgysylltu â'r gymuned a dathlu Rheilffordd 200, rydym yn falch o dynnu sylw at ein prosiect celf cydweithredol gyda phreswylwyr Llys Eleanor a disgyblion Ysgol Tŷ Ffynnon yn Shotton.

Nod y prosiect yw creu gwaith celf trawiadol sy'n adlewyrchu hanes y rheilffordd. Mae deg disgybl o Flynyddoedd 3 a 4 yn cymryd rhan, ac yn helpu preswylwyr y cynllun gofal i greu paentiadau a darluniau mynegiannol.

Mae'r prosiect yn derbyn cymorth gan yr artist lleol Sharon Wagstaff, yn dilyn llwyddiant ein prosiect cynharach yn y Fflint. Cynhelir sesiynau wythnosol i feithrin creadigrwydd a chysylltiadau sy'n pontio'r cenedlaethau gan arwain at weithiau celf sy'n dathlu treftadaeth ac ysbryd y gymuned.

Mae'r mentrau hyn yn adlewyrchu ein hymdrechion parhaus i gyfoethogi bywydau cymunedau lleol drwy gynnig profiadau diogel, cynhwysol ac ystyrlon o'r rheilffyrdd.

Gobeithio eich bod wedi mwynhau darllen yr adroddiad hwn sy'n tynnu sylw at rai o'n prosiectau dros y 12 mis diwethaf.

**Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith a'r newyddion diweddaraf am ddatblygiadau'r dyfodol, ewch i'n gwefan a chadwch mewn cysylltiad ar y cyfryngau cymdeithasol.**

***Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.***

# CYSYLLTW CH Â NI




**E-bost**
hello@conwyvalleynorthwalescoast.com

**Gwefan**
www.conwyvalleynorthwalescoast.com

**Cyfryngau Cymdeithasol**

# DIOLCH I'N PARTNERIAID

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

AVANTI
WEST COAST

Community
Rail Network

GROUNDWORK
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES